**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.cymru

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 26 Mehefin yn dilyn cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Yn ôl y gofyn, rwyf wedi amlinellu ein safbwynt isod ar gyfer gwneud Prynu Gwybodus yn orfodol.

Roedd dwy agwedd ar Brynu Gwybodus yn rhan o ymgynghoriad Tachwedd 2021, sef:

- Cyhoeddi gwybodaeth am fuchesi sy'n rhydd o TB ar ibTB; ac
- Ei gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu.

Helpodd canlyniad yr ymgynghoriad i lywio ein Cynllun Cyflawni TB newydd, a lansiwyd ym mis Mawrth.

Ein nod yw cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu system Prynu Gwybodus orfodol, galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau gwybodus yn y man gwerthu, gan wneud hynny mewn ffordd gyson. Bydd system orfodol hefyd yn galluogi milfeddygon i ddysgu mwy am darddiad gwartheg a brynwyd pe bai achosion o TB yn dod i'r amlwg.

O ystyried y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth y gwaith o'i gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth yn y man gwerthu, ac er mwyn sicrhau cysondeb drwy Gymru a Lloegr, bydd angen ymgysylltu rhagor â Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y goblygiadau posibl i geidwaid pe na baent yn dilyn egwyddorion prynu gwybodus. Ar ôl i'r ymgysylltu hwn ddod i ben, byddwn yn rhannu cynllun ac amserlen fanwl.

Mae fy swyddogion yn parhau i chwilio am ffyrdd i ehangu galluoedd ibTB a'i ddefnydd posibl mewn cynllun Prynu Gwybodus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu lle gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd swyddogion hefyd yn defnyddio'r Grŵp Cynghori Technegol (TAG) newydd ar TB Gwartheg, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, i ofyn am ei farn a'i arbenigedd.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**